***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, RHAN 3. (See end of Document for details)*

# ATODLEN 11

# PWYLLGORAU PONTIO CYNGHORAU SY'N UNO A CHYNGHORAU SY'N CAEL EU HAILSTRWYTHURO

## RHAN 3

## PWYLLGORAU PONTIO CYNGHORAU SY'N UNO A CHYNGHORAU SY'N CAEL EU HAILSTRWYTHURO

*Is-bwyllgorau i bwyllgorau pontio ar gyfer cynghorau sy'n uno neu gynghorau sy'n cael eu hailstrwythuro*

5 (1) Caiff pwyllgor pontio sefydlu un is-bwyllgor neu ragor.

(2) Swyddogaeth is-bwyllgor i bwyllgor pontio yw cynghori'r pwyllgor pontio ar faterion a atgyfeirir i'r is-bwyllgor gan y pwyllgor pontio.

(3) Mae aelodaeth is-bwyllgor i bwyllgor pontio i'w bennu gan y pwyllgor pontio.

(4) Os yw pwyllgor pontio yn penodi person nad yw'n aelod o un o'r cynghorau sy'n uno neu'r cynghorau sy'n cael eu hailstrwythuro i fod yn aelod o is-bwyllgor, ni chaiff y person hwnnw bleidleisio.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 11 para. 5 mewn grym ar 21.1.2021 at ddibenion penodedig, gweler **a. 175(1)(f)**(2)(b)(ii)

**I2** Atod. 11 para. 5 mewn grym ar 1.4.2021 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2021/297, **ergl. 2(i)**

*Darparu cyllid, cyfleusterau a gwybodaeth etc. i bwyllgorau pontio ar gyfer cynghorau sy'n uno neu gynghorau sy'n cael eu hailstrwythuro*

6 (1) Rhaid i'r cynghorau sy'n uno neu'r cynghorau sy'n cael eu hailstrwythuro dalu costau pwyllgor pontio yn ôl y cyfrannau y cytunant arnynt neu, os na cheir cytundeb, y cyfrannau a ddyfernir gan Weinidogion Cymru.

(2) Rhaid i'r cynghorau sy'n uno neu'r cynghorau sy'n cael eu hailstrwythuro ddarparu i bwyllgor pontio y cyfleusterau a'r adnoddau (gan gynnwys staff), y wybodaeth a'r dogfennau y gwna'r pwyllgor pontio (neu unrhyw is-bwyllgor i'r pwyllgor pontio) gais rhesymol amdanynt er mwyn ei alluogi i arfer ei swyddogaethau.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Atod. 11 para. 6 mewn grym ar 21.1.2021 at ddibenion penodedig, gweler **a. 175(1)(f)**(2)(b)(ii)

**I4** Atod. 11 para. 6 mewn grym ar 1.4.2021 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2021/297, **ergl. 2(i)**

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, RHAN 3. (See end of Document for details)*

*Pwyllgorau pontio ar gyfer cynghorau sy'n uno neu gynghorau sy'n cael eu hailstrwythuro: darpariaeth bellach*

7 (1) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo pwyllgor pontio i arfer ei swyddogaethau yn unol â'r cyfarwyddyd.

(2) Ni chaiff pwyllgor llywodraethu ac archwilio na phwyllgor trosolwg a chraffu cyngor sy'n uno neu gyngor sy'n cael ei ailstrwythuro arfer unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas ag unrhyw beth a wneir gan bwyllgor pontio; ac at y diben hwn—

mae i "pwyllgor llywodraethu ac archwilio" ("governance and audit committee") yr ystyr a roddir gan adran 81 o Fesur 2011;

mae i "pwyllgor trosolwg a chraffu" yr ystyr a roddir i "overview and scrutiny committee" gan adran 21(1) o Ddeddf 2000.

(3) Yn y Rhan hon o'r Atodlen hon—

(a) ystyr "pwyllgor pontio" yw pwyllgor pontio a sefydlir yn unol â pharagraff 1 neu yn rhinwedd paragraff 4;

(b) mae cyfeiriad at gyngor sy'n uno mewn perthynas â phwyllgor pontio yn gyfeiriad at gyngor sy'n uno sy'n sefydlu'r pwyllgor pontio;

(c) mae cyfeiriad at gyngor sy'n cael ei ailstrwythuro mewn perthynas â phwyllgor pontio yn gyfeiriad at gyngor sy'n cael ei ailstrwythuro sy'n sefydlu'r pwyllgor pontio.

[F1](4) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Atod. 11 para. 7(4) wedi ei hepgor (1.4.2021) yn rhinwedd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (asc 1), a. 175(7), **Atod. 10 para. 10**; O.S. 2021/297, ergl. 2(h)

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** Atod. 11 para. 7(1)(3)(b)(4) mewn grym ar 21.1.2021, gweler **a. 175(1)(f)**

**I6** Atod. 11 para. 7(2)(3)(a) mewn grym ar 1.4.2021 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2021/297, **ergl. 2(i)**

**I7** Atod. 11 para. 7(3)(c) mewn grym ar 1.4.2021 gan O.S. 2021/297, **ergl. 2(i)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, RHAN 3.